**Anghenion Statudol Addysg Grefyddol**

Annwyl Bennaeth,

Gofynnodd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) i mi ddwyn eich sylw at anghenion statudol addysg grefyddol mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth. Wrth i adolygiad o'r cwricwlwm gychwyn, credir bod rhai ysgolion yn ddryslyd ynghylch statws meysydd llafur cytunedig mewn ysgolion.

Byddwch yn ymwybodol bod addysg grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac felly mae y tu allan i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cwricwlwm addysg grefyddol yn cael ei benderfynu'n lleol gan yr ALl a CYSAG. Golyga hyn bod anghenraid statudol i AauLl ddarparu addysg grefyddol yn ôl maes llafur cytunedig. Cafodd y maes llafur cytunedig ei ail fabwysiadu yn 2013, felly mae'r maes llafur presennol yn parhau gyda'r ddealltwriaeth y bydd yn cael ei adolygu unwaith y bydd siâp cwricwlwm newydd Donaldson wedi'i ddiffinio. Byddai angen newid y ddeddf er mwyn diddymu cyflwyno addysg grefyddol yn ôl maes llafur cytunedig.

Argymhellodd adroddiad yr Athro Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru* y *dylai addysg grefyddol lunio rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, a dylai aros yn anghenraid cwricwlwm statudol o dderbyn.*

Mae CYSAG yn ymwybodol bod ysgolion arloesi yn cyfarfod nawr i siapio'r cwricwlwm newydd. Hyd y bydd y manylion y MDP wedi'u siapio a bod adolygiad o'r maes llafur cytunedig wedi'i gynnal, bydd CYSAG yn dymuno sicrhau bod ysgolion yn deall mai **trin rhaglenni astudiaeth y maes llafur a gytunwyd yn lleol yw'r prif anghenraid statudol.**

Ynghlwm mae copi o'r maes llafur cytunedig presennol ar gyfer addysg grefyddol ac mae rhaglenni astudiaeth CA2 ar dudalennau 18-19 y maes llafur cytunedig.

Parthed y **Cyfnod Sylfaen** - mae tri maes cyffredinol: Pobl, Credoau a Chwestiynau yn cael eu hastudio. Gweler tudalennau 14-17 y maes llafur cytunedig.

Hoffai CYSAG i ysgolion gadarnhau eu bod wedi cael yr wybodaeth trwy lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon ataf, philiplord@gwegogledd.cymru

Gobeithiaf fod yr wybodaeth yn ddefnyddiol i chi.

Dymuniadau da

Phil Lord (Swyddog CYSAG)

---

**<u>CYSAG – Ffurflen Ateb Maes Llafur Cytunedig:</u>**

**Enw'r ysgol** ________________________________________

**Enw'r aelod o staff sy'n llenwi'r ffurflen** ________________________________________

**Gwaith yn yr ysgol** ________________________________________

**Rwyf wedi darllen a deall yr anghenion DO / NADDO (rhowch gylch)***

**statudol ar gyfer addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen a CA2**

***os na, a ydych yn dymuno i gynrychiolydd o CYSAG gysylltu â chi?** **<u>YDW / NA (rhowch gylch)</u>**

**I'w lenwi a'i e-bostio at:**

Phil Lord – Swyddog CYSAG. philiplord@gwegogledd.cymru